Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol**

# Crynodeb o'r ymgysylltiad

Gwaith dilynol: newidiadau i’r rhyddid i symud ar ôl Brexit a'r goblygiadau i Gymru

Ionawr 2021

## Cefndir

Fel rhan o waith dilynol y **Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol** ar **newidiadau i’r rhyddid i symud ar ôl Brexit a'r goblygiadau i Gymru**, mae Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion y Senedd wedi bod yn casglu barn dinasyddion yr UE a chynrychiolwyr o wasanaethau cymorth am eu profiad o’r Cynllun Preswylio’n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (y Cynllun Preswylio o hyn ymlaen).

## Methodoleg

Cynigiodd y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion ddull ansoddol ar gyfer y gwaith ymgysylltu, gan gynnwys ffocws ar-lein a chyfweliadau personol i gasglu barn a phrofiadau unigolion a oedd eisoes wedi cyfrannu at waith y Pwyllgor.

Trefnwyd sesiwn gydag unigolion a rannodd eu barn ar y bwrdd trafod ar-lein, Loomio ac yn ystod grwpiau ffocws gyda'r Pwyllgor yng Nghaerdydd ym mis Medi 2019.

## Trefn

Cynhaliwyd y grŵp ffocws ar-lein ar Microsoft Teams ar 13 Ionawr 2020, gyda chynrychiolwyr o sefydliadau sy'n rhan o Wasanaeth Cyngor Mewnfudo Dinasyddion yr UE yng Nghymru a chynrychiolydd o awdurdod lleol. Mae'r sefydliadau'n cynnig cyngor a chymorth ychwanegol am ddim i unrhyw ddinesydd o'r UE sy'n byw yng Nghymru ac yn pryderu am wneud cais i’r Cynllun Preswylio. Cynhaliwyd cyfweliadau personol â dinasyddion yr UE ar 15 ac 18 Ionawr.

Hwyluswyd pob sesiwn gan aelod o'r tîm Ymgysylltu â Dinasyddion. Rhannodd chwech o gyfranogwyr eu barn.

## Crynodeb o'r prif themâu

### Gweithrediad cwbl ddigidol y Cynllun Preswylio

*"Am y tro cyntaf, mae'r Swyddfa Gartref wedi cyflwyno cynllun sy'n gwbl ddigidol, o'r cam ymgeisio hyd at dderbyn eich statws. Er bod y canllawiau ar gael ym mhob iaith Ewropeaidd, dim ond yn Saesneg rydych chi'n cael ymgeisio, felly mae angen llawer o gymorth o hyd."*

***Cyfranogwr grŵp ffocws 1***

Nododd y cyfranogwyr fod natur cwbl ddigidol y Cynllun yn broblem fawr, a bod y cyfyngiadau a gyflwynwyd yng ngoleuni'r pandemig yn ei chymhlethu ymhellach. Esboniodd un cyfranogwr, er bod natur ar-lein y Cynllun yn golygu nad oedd fawr o aflonyddwch o ran ei weithrediad ac yn osgoi unrhyw angen i *"symud pethau ar-lein"*, fod y cyfyngiadau yn gwneud y rhwystrau presennol yn waeth.

Nododd y cyfranogwyr fod rhwystrau iaith a materion fel diffyg llythrennedd digidol a hygyrchedd ar-lein yn heriau anoddach i'w goresgyn pan oedd cyfyngiadau yn atal ymgysylltiad wyneb yn wyneb â defnyddwyr gwasanaethau.

*"Pan ddaeth i'r cam lle roedd angen i'r ymgeiswyr gyflwyno tystiolaeth, roeddem yn gallu eu cefnogi drwy'r broses honno, ynghyd â'u helpu i gael gweld eu statws ac egluro beth oedd yn ei olygu. Mae Covid wedi rhoi stop ar hynny i gyd. Mae pobl a oedd yn cael eu hallgau yn ddigidol bellach mewn sefyllfa waeth fyth oherwydd ein bod wedi cael ein gorfodi i weithio o bell."*

***Cyfranogwr grŵp ffocws 1***

*"Oherwydd y pandemig, mae gen i restr o bobl sydd angen i mi eu gweld wyneb yn wyneb o hyd. Mae gen i un dyn oedrannus heb ffôn symudol a dim mynediad i'r rhyngrwyd, felly beth ydych chi'n ei wneud mewn sefyllfa o'r fath?"*

***Cyfranogwr grŵp ffocws 4***

Roedd yr holl gyfranogwyr a oedd yn ymwneud â chynorthwyo ymgeiswyr i fynd drwy broses y Cynllun Preswylio yn cytuno bod nifer y ceisiadau wedi gostwng oherwydd y pandemig. O ganlyniad, esboniodd un cyfranogwr fod natur ei rôl wedi newid rhywfaint.

*“Llawer o'n gwaith drwy gyfnod Covid yw rhoi sicrwydd ac esbonio i ymgeiswyr bod ganddyn nhw amser a’n bod ni'n dal i allu mynd â nhw drwy'r broses o bell. Y pryder sydd gennym nawr yw ein bod yn mynd yn ôl i mewn i gyfnod clo ac y gallai fod yn ddau fis arall cyn y gallwn ni gwrdd â phobl wyneb yn wyneb. Rydyn ni wedi bod yn trafod gyda'r Swyddfa Gartref i egluro na fydd pobl yn gallu gwneud y cais mewn pryd. Beth fydd yn digwydd rhwng nawr a diwedd mis Mehefin, yn ogystal ag ar ôl mis Mehefin?”*

***Cyfranogwr grŵp ffocws 1***

Esboniodd unigolyn a oedd wedi llwyddo i fynd drwy’r Cynllun Preswylio ei bod wedi cael y broses yn syml, ond cyfaddefodd ei bod yn gyfarwydd â gwefannau tebyg oherwydd natur ei swydd.

*“Roeddwn i’n meddwl bod y broses yn syml ond efallai bod hynny oherwydd fy mod yn gyfarwydd â gwefannau fel Cyllid a Thollau EM, Tŷ'r Cwmnïau a'r Porth. Cefais fy synnu ychydig pan gefais gynnig statws preswylydd cyn-sefydlog yn lle statws preswylydd sefydlog. Rwy'n credu y gallai hyn fod oherwydd i mi weithio am dair blynedd ar ôl cyrraedd y DU yn 2005, ac yna dod yn feichiog ac aros gartref i fod yn rhiant drwy gydol blynyddoedd cynnar fy mhlentyn. Felly o safbwynt y llywodraeth efallai ei bod yn edrych fel fy mod i wedi gadael y wlad ac yna dod yn ôl. Ond unwaith i mi anfon yr holl ddogfennaeth berthnasol i ffwrdd, fe gafodd fy statws ei newid yn gyflym iawn.”*

***Person a gafodd gyfweliad personol 1***

## Statws

Yn ogystal â gweithrediad cwbl ar-lein y Cynllun Preswylio, fe wnaeth yr holl gyfranogwyr adleisio pryderon a godwyd yn flaenorol gyda'r Pwyllgor ynghylch y diffyg dogfennaeth gorfforol yn cadarnhau statws unigolyn.

Yn benodol, cytunodd yr holl gyfranogwyr y byddai diffyg tystiolaeth bendant o statws yn peri anawsterau i unigolion a allai fod angen cael gwasanaethau fel tai, gofal iechyd, addysg a chyflogaeth. Esboniodd rhai cyfranogwyr fod angen cerdyn adnabod yn cadarnhau statws.

*“Mae'r e-bost sy’n cael ei anfon pan fyddwch yn cael eich statws yn dweud nad yw’n brawf o statws mewnfudo. Felly sut mae tîm tai mewn awdurdod lleol, sydd â'r dasg o asesu pwy sy’n gymwys i gael cymorth tai, yn gwybod a oes gan unigolyn statws preswylydd sefydlog neu gyn-sefydlog? Mae cwestiwn hefyd*

*ynghylch yr hyfforddiant a'r wybodaeth y mae angen eu trosglwyddo i'r holl staff sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau ynghylch pethau fel tai a gofal iechyd."*

***Cyfranogwr grŵp ffocws 3***

*"Nid yw'n gynhwysol o gwbl ac mae risg enfawr mewn perthynas â grwpiau sydd eisoes mewn perygl o gael eu hecsbloetio. Os ydych chi mewn sefyllfa lle na allwch ddeall beth yw eich hawliau neu na allwch ddeall rhywun yn cymryd eich dogfennau am reswm dilys, fel asesu'ch cymhwysedd ar gyfer tai, bydd yn achosi problemau. Pe bai gennych gerdyn sy'n dangos eich statws, byddai hynny'n help. "*

***Cyfranogwr grŵp ffocws 1***

I'r gwrthwyneb, nid oedd gan un unigolyn y rhoddwyd statws preswyliwr sefydlog iddi broblem gyda'r diffyg dogfennaeth gorfforol yn cadarnhau ei statws, ac awgrymodd y gallai manylion diwylliannol a/neu genhedlaeth fod yn ffactor.

*"Dw i ddim yn teimlo'n anghyffyrddus gyda'r diffyg prawf ffisegol. Caiff ei gofnodi fel rhan o ddata'r llywodraeth. Gallai fod yn ganlyniad rhai agweddau diwylliannol. Mae pobl o'r Bloc Dwyreiniol yn gyfarwydd iawn â'r angen i gario dogfennau adnabod. Dyma'r drefn y maen nhw wedi ymgyfarwyddo â hi ers oedran ifanc iawn, ond fel gyda phopeth, mae pethau'n newid gyda'r oes ddigidol. Efallai y byddai'n well gan y genhedlaeth hŷn gael papurau sy'n cadarnhau eu statws. Wedi dweud hynny, ni allaf helpu ond meddwl, ymhen 20 mlynedd, y bydd yna sefyllfa arall debyg i Windrush, lle dywedir wrthym am fynd adref."*

***Person a gafodd gyfweliad personol 1***

## Llysgenadaethau a dogfennau adnabod

Cyfeiriodd y rhan fwyaf o gyfranogwyr at y ffaith bod diffyg mynediad ffisegol i lysgenadaethau – o ganlyniad i gyfyngiadau teithio a gyflwynwyd oherwydd y pandemig – yn fater arwyddocaol. Er gwaethaf y cyfyngiadau hynny, amlygodd cyfranogwyr yr effaith ariannol waharddol yn sgil unigolion sydd angen teithio i'w gwlad wreiddiol mewn rhai achosion, i adfer y ddogfennaeth sy'n ofynnol er mwyn bwrw ymlaen â phroses y Cynllun Preswylio o gyflwyno cais.

*"Pan gyrhaeddwn ni ddiwedd y cyfnod gras, beth fydd yn digwydd i'r rheini sydd heb fod wedi gallu cyflwyno cais neu gael eu dogfennau? Mae pobl yn poeni. Un peth cadarnhaol yw bod Llywodraeth Cymru yn edrych i gynnig y llwybr*

*eithriadol o dan gymorth dewisol, i bobl sydd angen cefnogaeth arnynt gyda chostau teithio i fynd i'r llysgenadaethau hyn er mwyn adnewyddu eu pasbort.”*

***Cyfranogwr grŵp ffocws 2***

Cytunodd y cyfranogwyr – yn ddarostyngedig i gyfyngiadau – mai ffordd bosibl o wneud gwahaniaeth sylweddol i'r rheini na allant fforddio teithio i'w llysgenhadaeth fyddai caniatáu llysgenadaethau dros dro yng Nghymru.

*“Cafwyd sylwadau gan lysgenhadaeth Portiwgal o ran cael llysgenhadaeth dros dro yng Nghaerdydd, a byddem fel arfer wedi ceisio darparu ar eu cyfer, ond wedi methu gwneud hynny oherwydd y cyfyngiadau. Byddai wedi bod yn braf gallu defnyddio cefnogaeth Llywodraeth Cymru ar hyn, oherwydd ei fod yn wasanaeth hanfodol ac mae angen i ni fynd y tu hwnt i hynny.”*

***Cyfranogwr grŵp ffocws 3***

Esboniodd cyfranogwyr sy'n ymwneud â chefnogi unigolion trwy broses y Cynllun Preswylio y fod ymgeiswyr wedi bod yn llawer mwy cyfforddus yn anfon dogfennau adnabod personol atyn nhw fel gwasanaeth cymorth, yn hytrach nag yn uniongyrchol i'r Swyddfa Gartref. Cyfeiriodd cyfranogwyr at deimlad cynyddol o nerfusrwydd ymysg ymgeiswyr, â hynny fel petai wedi cyd-daro â diwedd y cyfnod pontio.

*“Gallwn dynnu llun o’r pasbort a’r sglodyn biometrig ac yna anfon eu manylion mewngofnodi at bobl, oherwydd eu bod wedi rhoi awdurdod trydydd parti i ni. Pan fydd angen cwblhau'r sgan wyneb, mae hynny'n cael ei wneud mewn person, fel arfer. Mae'r dechnoleg yn galluogi gwirio ffotograff da o'r pasbort. Mae cleientiaid wir wedi gwerthfawrogi'r ffordd hon o fynd ati, ac mae'n rhoi mwy o hyder iddynt yn y broses. Ond rydym wedi gweld gostyngiad yn nifer y bobl sy’n dymuno anfon eu dogfennau atom - wn i ddim a yw hynny’n ymwneud â diwedd y cyfnod pontio, a'r sensitifrwydd ynghylch dinasyddiaeth.”*

***Cyfranogwr grŵp ffocws 2***

Er bod ymgeiswyr wedi croesawu ffyrdd o fynd ati a fabwysiadwyd gan wasanaethau cymorth yn sgil y pandemig, maen nhw wedi peri problemau ar brydiau.

*“Mae un mater ry’n ni wedi dod ar ei draws yn ymwneud ag adnabod wynebau, sydd wedi bod yn gwahaniaethu yn erbyn lliwiau croen tywyllach. Cawsom*

> *sefyllfa oedd yn embaras lle bu'n rhaid i ni dynnu llun o ymgeisydd sawl gwaith er mwyn iddo gael ei dderbyn."*
>
> ***Cyfranogwr grŵp ffocws 2***

## Data

Trafododd rhai cyfranogwyr yr heriau o nodi unigolion a allai fod yn gymwys i wneud cais am y Cynllun Preswylio, ond nad oeddent wedi gwneud hynny eto. Disgrifiodd un cyfranogwr a oedd yn gweithio mewn awdurdod lleol weithio gyda *"Data amherffaith"*, gan nad yw'r systemau mewnol presennol wedi'u cynllunio i adnabod dinasyddion yr UE.

> *"Ry'n ni'n ddibynnol ar wasanaethau nad oedden nhw wedi'u cynllunio i gofnodi statws mewnfudo. Felly gall nodi gwladolion yr UE sy'n ymwneud â gwasanaethau cymdeithasol fod yn heriol. Mae hwn wedi bod yn ymarfer mawr i ni, sydd wedi amlygu nifer o faterion. Mae un peth ry'n ni wedi sylwi arno'n ymwneud â gwasanaethau cymdeithasol oedolion. Yn wahanol i bobl ifanc sydd fel arfer yn cael eu hymgysylltu trwy eu gweithiwr sylfaenol oherwydd dyletswydd gofal, nid yr un yw'r sefyllfa gydag ag oedolion ac felly rydym yn dibynnu ar y system mewn ffordd nad oeddem wedi gallu ei rhagweld.*
>
> *Cawsom un achos o unigolyn nad oes ganddo weithiwr cymdeithasol, sydd, yn ein barn ni, yn gymwys i wneud cais i'r Cynllun Preswylio, ond sydd wedi'i golli hyd yn hyn. Gallai fod yna ragor sy'n debyg iddo, sydd wedi llithro ymaith."*
>
> ***Cyfranogwr grŵp ffocws 3***

## Diffyg ymwybyddiaeth a / neu ddealltwriaeth o'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr Undeb Ewropeaidd.

Cytunodd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr mai un o'r prif resymau pam nad yw rhai pobl wedi gwneud cais am y Cynllun Preswylio hyd yn hyn yw diffyg ymwybyddiaeth a/neu ddealltwriaeth o'r Cynllun.

> *"Mae rhai pobl o'r farn, os ydyn nhw'n gwneud cais drostyn nhw eu hunain, nad oes angen iddyn nhw wneud cais dros eu plant. Mae eraill yn meddwl eu bod nhw wedi bod yma'n ddigon hir, wedi talu trethi ac wedi gweithio yma ers blynyddoedd ac felly'n tybio nad oes angen iddyn nhw wneud cais."*
>
> ***Cyfranogwr grŵp ffocws 4***

Yn ôl rhai cyfranogwyr, er bod y Cynllun yn gymharol syml i'w lywio o'i gymharu â chynlluniau mewnfudo eraill, byddai'r rheini sy'n agored i niwed neu'n anghyfarwydd â gwneud ceisiadau ar-lein yn ei chael hi'n anodd.

> *"Pan fyddwch chi'n ystyried y rheini sy'n ymwneud â'r gwasanaethau cymdeithasol, maen nhw'n yn grŵp ymylol, hynod agored i niwed ac mae'n aml angen cefnogaeth wyneb yn wyneb arnyn nhw mewn amgylchiadau arferol. Nid yw'n ymwneud â hygyrchedd digidol yn unig, ond materion ynghylch gallu i wneud y cais."*
>
> ***Cyfranogwr grŵp ffocws 3***
>
> *"Mae gennym bobl sy'n ofni gwneud y cais rhag ofn iddyn nhw ei gael yn anghywir. Maen nhw'n ofni cael eu halltudio felly maen nhw'n aros hyd nes eu bod nhw'n gallu mynd i weld gwasanaeth cymorth, gan fod hynny'n rhoi sicrwydd iddyn nhw y byddan nhw'n gallu sicrhau eu hawl i aros. Gan fod y cyfnod pontio wedi dod i ben erbyn hyn, mae pobl eisiau cadw gafael ar eu dogfennau adnabod gan mai dyna'r unig beth sy'n profi pwy ydyn nhw, a'u bod nhw'n "cael bod yma."*
>
> ***Cyfranogwr grŵp ffocws 1***

Esboniodd un cyfranogwr y byddai hi'n aml yn dosbarthu amlenni i'w defnyddwyr gwasanaeth ac yn ysgrifennu nodiadau ar eu rhan, i'w galluogi i ofyn i Swyddfa'r Post am wasanaeth danfon cofnodedig.

> *"Ry'n ni wedi cael pobl nad ydyn nhw wedi danfon eu pasbort ac yn meddwl eu bod nhw wedi gwneud popeth sydd ei angen i gwblhau'r cais. Mae'r ofn y bydd rhywun yn cadw eu pasbort ar ôl y cyfnod pontio wedi tyfu. "*
>
> ***Cyfranogwr grŵp ffocws 1***

## Cefnogaeth Llywodraeth Cymru

Roedd mwyafrif y cyfranogwyr yn teimlo'n gryf am yr angen am ymgyrch gyhoeddus i godi ymwybyddiaeth o'r Cynllun Preswylio, mater a godwyd gyda Llywodraeth Cymru ac Aelodau'r Senedd ar sawl achlysur yn y gorffennol.

> *"Ry'n ni wedi cael ambell ymateb cadarnhaol gan Aelodau o'r Senedd ynglŷn â'r syniad o ddefnyddio'r rhestr etholiadol i anfon gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru am y Cynllun Preswylio, ond mae wedi bod yn rhwystredigaeth gyson i gael cydnabyddiaeth gan Lywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol*

*Cymru. Mae hon yn strategaeth a ddylai fod wedi bod ar waith o'r cychwyn cyntaf, yn ogystal â modd cydlynol o fapio ble y gellid blaenoriaethu gwasanaethau. Byddem wedi disgwyl cael ymateb mwy strategol gan wleidyddion, ond nid yw hynny wedi digwydd."*

***Cyfranogwr grŵp ffocws 2***

*"Ry'n ni i gyd wedi bod yn pwyso am yr ymgyrch gyhoeddus yn ein 'galwad gan genhedloedd' gyda Llywodraeth Cymru. Byddai gallu rhoi negeseuon ar goedd ar draws cyfryngau cymdeithasol mewn nifer o ieithoedd yn hynod ddefnyddiol. Fel sefydliadau, mae gan bob un ohonom ni dudalennau Facebook y gallem eu defnyddio, yn ogystal â'n cyfrifon personol. Adeg y Nadolig, creodd Cyngor Casnewydd daflen a'i hanfon at ddinasyddion Ewropeaidd oddeutu Dydd San Nicholas, oedd yn diolch iddyn nhw am ddewis Casnewydd fel eu cartref. Roedd yn hynod bwerus."*

***Cyfranogwr grŵp ffocws 1***

*"Byddwn wedi hoffi gweld negeseuon yn ailbwysleisio pwysigrwydd y Cynllun Preswylio a pham ei fod yn hanfodol, a bod angen iddo barhau, mor ddiogel â phosibl."*

***Cyfranogwr grŵp ffocws 3***

Bu'r cyfranogwyr hefyd yn trafod cyllido eu gwasanaethau, a mynegwyd pryder y gallai'r cyllid ddod i ben ar 1 Gorffennaf 2021, er bod y galw am gymorth yn annhebygol o ostwng.

*"Bydd llawer o'n cyllid yn dod i ben ar ôl y cyfnod gras. Ry'n ni'n gwybod y bydd yna lawer o heriau o 1 Gorffennaf ymlaen; pobl nad ydynt wedi gwneud cais, pobl na allant gael mynediad i'w statws neu bobl sydd wedi cael statws preswylwyr cyn sefydlu, ac sydd ganddynt hyd at bum mlynedd i drosi hynny'n statws preswylwyr sefydlog. Ein pryder yw y bydd cyllid yn dod i ben ar 1 Gorffennaf, ond na fydd y gwaith yn dod i ben hefyd. Mae angen mwy o sicrwydd arnom nawr, fel y gallwn gynllunio ymlaen llaw."*

***Cyfranogwr grŵp ffocws 1***

Esboniodd un cyfranogwr fod y Swyddfa Gartref wedi newid ei negeseuon i adlewyrchu ymdeimlad mwy brys. Cytunodd y cyfranogwyr fod angen i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU anfon negeseuon myw cydlynol.

*“Gallai Llywodraeth Cymru fabwysiadu’r agwedd ‘mae hyn o bwys i ni ac ry’n ni eisiau i chi aros. Gwnewch gais i'r Cynllun Preswylio.” Mae angen i bobl ddeall mai nid dewis yw hyn.”*

***Cyfranogwr grŵp ffocws 1***

## Agweddau tuag at ddinasyddion yr UE

*“Dyw hi ddim yn gyfrinach bod troseddau casineb wedi cynyddu ers y refferendwm. Teimlai pobl yn ddigon dewr i siarad fel ag y mynnent. Mae'n dal i ddigwydd i raddau, a dyna pam mae ailbwysleisio’r neges bod croeso i ddinasyddion yr UE yma yn bwysig. Mae'n fwy amlwg mewn lleoliadau trefi a dinasoedd, ond mae angen i hynny gyrraedd mannau mwy eang, a bod yn fwy gweladwy mewn ardaloedd gwledig."*

***Cyfranogwr grŵp ffocws 1***

*“Dwi’n gweithio mewn ardal fwy gwledig, a doeddwn i ddim o’r farn bod y neges yn dweud bod croeso i ddinasyddion yr UE wedi’i chyfleu cystal. Rwy wastad yn meddwl am yr hyn a wnaeth Nicola Sturgeon – sef ei gwneud yn glir ar dudalen flaen eu papurau newydd fod croeso i ddinasyddion yr UE. Fe wnes i grio pan welais hynny a hoffwn pe bai gennym rywbeth tebyg yma. Fodd bynnag, cefais lythyr gan Lywodraeth Cymru yn dweud y byddwn yn gallu pleidleisio yn etholiadau’r Senedd, ac roeddwn i’n meddwl bod hynny’n beth braf.”*

***Person a gafodd gyfweliad personol 2***

*“Â’r cyfnod pontio wedi dod i ben, roedd ein cynghorwyr rheng flaen yn cael negeseuon gan gleientiaid yn dweud nad ydyn nhw’n teimlo bod croeso iddyn nhw – mewn ardaloedd sy’n honni eu bod yn cefnogi’r cysyniad o genedl sy’n noddfa.”*

***Cyfranogwr grŵp ffocws 2***

Esboniodd un cyfranogwr ei fod, fel sefydliad, wedi gweld patrwm sy'n dod i'r amlwg sy'n awgrymu bod gwahaniaethu yn y gweithle yn fwy cyffredin. Rhoddwyd enghreifftiau o ddinasyddion yr UE, i bob golwg, yn cael eu hanwybyddu at ddibenion dyrchafiadau a chontractau parhaol, o blaid cydweithwyr â llai o brofiad ac a oedd wedi bod yn y sefydliad am lai o amser.

*"Fel gyda llawer o achosion gwahaniaethu mewn cyflogaeth, gallai fod yn anodd profi'r hyn sydd wrth wraidd hynny, ond ni ddylem ofni dweud ein bod yn synhwyro bod patrwm yn dod i'r amlwg."*

***Cyfranogwr grŵp ffocws 2***

## Capasiti

Cytunodd mwyafrif y cyfranogwyr fod yna broblemau capasiti sefydliadol o ganlyniad i'r pandemig.

*"Dim ond cymaint o led band sy'n bodoli o fewn sefydliadau i fynd i'r afael â chymaint o faterion. Mae cyfle a chost yn gysylltiedig â phopeth. Mae mater Brexit wedi cael ei wthio i'r ochr; ry'ch chi'n ei weld ar lefel genedlaethol."*

***Cyfranogwr grŵp ffocws 3***

*"Ry'n ni'n poeni am yr effaith y bydd diffyg capasiti'n ei gael ar bobl sydd angen mynd trwy broses y Cynllun Preswylio. Mae angen i gynghorau feddu ar yr arbenigedd i ddarparu gwasanaeth – gallwn ddarparu gweithdai a gweminarau i Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, cynghorau a sefydliadau eraill. Dwyf fi ddim o'r farn ein bod ni'n disgwyl i bawb feddu ar yr holl wybodaeth hon ar unwaith."*

***Cyfranogwr grŵp ffocws 1***